Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Dydd Mercher, 7 Chwefror 2018
Siambr y Cyngor, Prifysgol Abertawe

Yn bresennol:

Aelodau (Coleg): Dr Hefin Jones (Cadeirydd a Deon), Yr Athro Mererid Hopwood, Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones, Yr Athro Emeritws Densil Morgan, Delyth Murphy, Yr Athro Gwynedd Parry

Aelodau (Sefydliad): Dr Gwenno Ffrancon, Dr Gwawr Jones, Sioned Roberts, Dr Elin Royles, Daniel Tiplady, Sara Whittam

Aelodau (Myfyrwyr): Laura Beth Davies, Gwenllian Jones, Siôn Lewis, Lois Nash, Mirain Roberts, Tomos Watson

Aelodau (Colegau Cymru): Llinos Roberts, Carys Swain

Swyddogion: Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr), Dr Dylan Phillips (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Dafydd Trystan (Cofrestrydd), Dr Lowri Morgans (Rheolwr Prosiectau Cynllunio Academaidd), Nia Brown (Swyddog Datblygu: Ysgrifenyddiaeth)

Ymddiheuriadau: Yr Athro Siwan Davies, Dr Dylan Foster Evans, Yr Athro Carwyn Jones, Yr Athro Lisa Lewis, Yr Athro Eleri Pryse, Llŷr Roberts, Yr Athro Enlli Thomas, Dr Catrin Haf Williams, Dr Prysor Williams, Dylan Davies, Steffan Nicholas

Eitem	**Prif bwyntiau trafod**	**Pwyntiau Gweithredu**	**Cyfnod amser**
1. Croeso a Sylwadau Agoriadol	1.1. Croesawyd yr aelodau'n ffurfiol i'r cyfarfod gan y Deon gan gynnwys Dr Gwawr Jones ar ran yr Athro Lisa Lewis. 1.2. Croesawyd y cynrychiolwyr myfyrwyr ar gyfer y flwyddyn academaidd 2017/18 canlynol i'w cyfarfod cyntaf: **Cynrychiolwyr Prifysgolion y De Ddwyrain** – Gwenllian Jones, Prifysgol Caerdydd a Siôn Lewis, Prifysgol Metropolitan Caerdydd **Cynrychiolydd Prifysgolion y De Orllewin** – Tomos Watson, Prifysgol Abertawe **Cynrychiolydd Prifysgolion y Gogledd Orllewin** – Lois Nash, Prifysgol Aberystwyth **Swyddog UCMC** – Mirain Roberts		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
2. Ymddiheuriadau a datganiadau o ddiddordeb	2.1. Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod. 2.2. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w nodi.		
3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2017	3.1. Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir.		
4. Cylch Gorchwyl (Eitem 4)	4.1. Cyflwynwyd cylch gorchwyl diwygiedig i'r Bwrdd Academaidd gan y Prif Weithredwr. Adroddwyd bod adolygiad o Lywodraethiant y Coleg wedi digwydd yn deillio o argymhellion adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Daw'r newidiadau i rym yn amodol ar gymeradwyaeth y Llys ar 7 Mawrth 2018. Fel rhan o'r strwythur newydd adolygwyd cylchoedd gorchwyl yr holl bwyllgorau. Yn y dyfodol byddant yn cael eu hadolygu neu ddiweddaru yn flynyddol, os oes angen, yn ystod Tymor yr Hydref. Yn dilyn ymestyn cyfrifoldebau'r Coleg bydd y Bwrdd Academaidd yn parhau i ganolbwyntio ar addysg uwch. 4.2. Cafwyd trafodaeth lawn ar amcanion y cylch gorchwyl a nodwyd nifer o argymhellion i'w hymgorffori yn y testun. 4.3. Yn ystod y drafodaeth codwyd cwestiwn ynghylch rhaeadru gwybodaeth rhwng y Bwrdd Cyfarwyddwyr a'r Bwrdd Academaidd a sefydliadau. Cytunwyd bod cyfrifoldeb ar y canghennau i sicrhau bod adroddiadau am gyfarfodydd y Bwrdd Academadd yn cael eu rhaeadru'n ffurfiol. Er mwyn osgoi colli rhannu gwybodaeth argymhellwyd rhannu cofnodion y Bwrdd Cyfarwyddwyr gyda'r Bwrdd Academaidd.	Adolygu cylch gorchwyl yn flynyddol IM i ddiwygio a chyflwyno i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr Cofnodion y BC i'w rhannu gyda'r BA, er gwybodaeth	Tymor yr Hydref 8 Mawrth 2018 Haf 2018
5. Diweddariad gan y Prif Weithredwr	5.1. Cafwyd diweddariad cyffredinol gan y Prif Weithredwr ar ddatblygiadau. Adroddwyd bod argymhellion adroddiad y		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar weithgareddau'r Coleg wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. 5.2. Adroddwyd bod y Coleg yn datblygu Strategaeth Marchnata a Chyfathrebu newydd yn sgil Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru ac argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. 5.3. Nodwyd bod Grŵp Cynllunio Addysg Bellach wedi'i sefydlu ar y cyd rhwng y Coleg a Llywodraeth Cymru i baratoi cynigion ar gyfer datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector ôl-16. Bu'r cyfarfod cyntaf ar 26 Ionawr 2018. Bydd y cynigion i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn ystod hydref 2018. 5.4. Adroddwyd yn ogystal bod Dr Gwennan Schiavone wedi gadael y Coleg yn dilyn derbyn swydd newydd. Diolchwyd iddi am ei chyfraniad sylweddol ar hyd y blynyddoedd a dymunwyd yn dda iddi yn ei her newydd. 5.5. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch data, nodwyd yr amserlen flynyddol ar gyfer derbyn y data ffurfiol. Cytunwyd i gynnwys cyflwyniad ar ddata ac ystadegau cyfredol ar agenda'r Bwrdd yn flynyddol.	Eitem sefydlog flynyddol ar ddata	Yn flynyddol
6. Darlithwyr cysylltiol (Eitem 6)	6.1. Cafwyd cyflwyniad gan Dr Lowri Morgans ar y cynnig i gynnal a datblygu'r cysyniad o Ddarlithwyr Cysylltiol y Coleg er mwyn cynnal a datblygu'r cysyniad o gymuned academaidd a ddatblygwyd yn bennaf drwy'r Cynllun Staffio. 6.2. Trafodwyd y teitl gweithredol a'r posibilrwydd o fabwysiadau opsiynau eraill. Gofynnwyd i'r aelodau gyflwyno syniadau. 6.3. Cafwyd trafodaeth gychwynnol ar y cysyniad gan yr aelodau ac fe'u hanogwyd i ymateb i'r ymgynghoriad erbyn y dyddiad cau ar 30 Mawrth 2018.	Ymatebion i'r Coleg	30 Mawrth 2018

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
7. Ysgoloriaethau (Eitem 7)	7.1. Cafwyd cyflwyniad gan y Cofrestrydd ar y papur ymgynghorol ar adolygu trefniadau cynlluniau Ysgoloriaethau'r Coleg. 7.2. Anogwyd yr aelodau i ymateb i'r ymgynghoriad erbyn y dyddiad cau ar 1 Mawrth 2018.	Ymatebion i'r Coleg	1 Mawrth 2018
8. Cyflwyniad gan Brifysgol Abertawe	8.1. Darparwyd cyflwyniad gan Dr Gwenno Ffrancon a Tomos Watson ar fforwm myfyrwyr Cangen Prifysgol Abertawe. 8.2. Diolchwyd iddynt am y cyflwyniad a oedd yn arddangos y pwyslais ar lais y myfyrwyr a rôl y gangen fel hwylusydd rhwng y myfyrwyr. 8.3. Nodwyd gofid yr aelodau nad oedd swyddog myfyrwyr Cymraeg llawn amser ym mhob prifysgol.	Deon i gyflwyno i'r BC	Mehefin 2018
9. Cynlluniau pynciol (Eitem 8)	9.1. Cyflwynwyd y cynlluniau pynciol canlynol gan y Cofrestrydd: • Mathemateg a Ffiseg • Y Gyfraith • Gwyddorau'r Heddlu a Throseddeg • Celf a Dylunio • Meddygaeth 9.2. Yn dilyn trafodaeth lawn cymeradwywyd y cynlluniau gyda mân newidiadau i'r tri cyntaf. Cytunwyd i drosglwyddo unrhyw wybodaeth ychwanegol i LM. 9.3. Nodwyd pwysigrwydd darparu gwybodaeth ar gyfer y cynlluniau mewn da bryd er mwyn sicrhau cynlluniau cyfredol yn barod ar gyfer unrhyw adolygiad i weithgareddau'r Coleg yn y dyfodol. 9.4. Trafodwyd y diffiniad o fodiwl cyfrwng Cymraeg a'r canfyddiad bod gwahaniaethau o ddisgyblaeth i ddisgyblaeth. Nododd aelodau bod angen sicrhau cysondeb o ran profiad y myfyriwr a'r hyn a ddiffinir fel 'modiwl cyfrwng Cymraeg' ac y byddai'n dda cael	LM i ddiwygio'r cynlluniau yn sgil gohebiaeth e-bost	Chwefror 2018

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	arweiniad clir. Cadarnhaodd y swyddogion bod ystyried y mater hwn yn flaenoriaeth. 9.5. Nodwyd pwysigrwydd tracio myfyrwyr sydd yn dewis astudio y tu allan i Gymru.		
10. Ehangu mynediad a chyfranogiad (Eitem 10)	10.1. Cafwyd cyflwyniad gan Delyth Murphy ar brosiect posibl yn ymwneud â Gofalwyr Ifainc. 10.2. Nodwyd bod Adam Jones yn paratoi Strategaeth y Coleg i'w drafod yn y Bwrdd Academaidd nesaf. Anogwyd yr aelodau i gysylltu ag Adam Jones ynghylch unrhyw awgrymiadau.	Strategaeth Ehangu Mynediad	2 Mai 2018
11. Materion y myfyrwyr (Eitem 9)	11.1. Cyflwynwyd papur trafod y myfyrwyr ar adnoddau cyfrwng Cymraeg gan Gwenllian Jones. 11.2. Codwyd nifer o gwestiynau ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i weithredu drwy'r canghennau a'r cynlluniau pwnc fel a ganlyn: • cynyddu ymwybyddiaeth o fodolaeth adnoddau cyfrwng Cymraeg • codi ymwybyddiaeth o'r angen am fwy o gymorth ar gyfer myfyrwyr â dyslecsia • datblygu adnoddau pellach 11.3. Cytunwyd i ddarparu diweddariad yng nghyfarfod y Bwrdd Academaidd ar 2 Mai 2018.	Diweddariad ar adnoddau Cymraeg i fyfyrwyr	2 Mai 2018
12. Pwyllgor Cydweithio Academaidd (Eitem 11)	12.1. Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Cydweithio Academaidd, 8 Tachwedd 2017, er gwybodaeth. 12.2. Derbyniwyd adroddiad llafar ar gyfarfod 24 Ionawr 2018 gan y Prif Weithredwr. Adroddwyd y mabwysiadwyd cytundeb ar sail templed Prifysgol Aberystwyth i'w ddefnyddio gan y prifysgolion.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
13. Ymchwil a Chyhoeddi (Eitem 12)	13.1. Nodwyd cofnodion drafft y Grŵp Ymchwil a Chyhoeddi, 15 Tachwedd 2017, er gwybodaeth. 13.2. Adroddwyd bod adroddiadau ar waith ymchwil yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd yng nghyfarfodydd nifer o'r canghennau. 13.3. Fel is-bwyllgor o'r Bwrdd Academaidd gofynnwyd i'r pwyllgor: • adolygu ei gylch gorchwyl ac aelodaeth • am adroddiad rhagolygon cyhoeddi drwy gyfrwng y Gymraeg.	Adolygu cylch gorchwyl Adroddiad	Haf 2018 Erbyn Tymor yr Hydref 2018
14. Materion yn codi	14.1. Eitem 7.3: Data a deunyddiau hyrwyddo. Adroddwyd bod data cyflogadwyedd myfyrwyr cyfrwng Cymraeg wedi eu cynnwys mewn deunyddiau hyrwyddo marchnata. 14.2. Eitem 10: Cynrychiolydd myfyrwyr i fynychu cyfarfod Swyddogion Cangen i drafod ymwybyddiaeth o waith canghennau'r Coleg. Mynychodd Laura Beth Davies ar ran y myfyrwyr a chafwyd cyfle i drafod sefyllfaoedd unigol. 14.3. Eitem 11.5: Arferion asesu ac arholi. Cafwyd diweddariad gan y Deon ar ymatebion y swyddogion cangen ar ganllawiau prifysgolion ar gyfer asesu trwy gyfrwng y Gymraeg. Adroddwyd bod pedair cangen wedi ymateb a disgwylir ymatebion gan y gweddill cyn cyfarfod y Prif Weithredwr a'r Deon gyda'r QAA ar 28 Chwefror 2018. 14.4. Eitem 12.3: Gwobr Eilir Hedd Morgan. Adroddwyd bod y nifer mwyaf o enwebiadau ar gyfer y wobr wedi'u derbyn eleni.		
15. UFA	15.1. Gan mai dyma gyfarfod olaf yr Athro Emeritws Densil Morgan diolchwyd iddo am ei gyfraniad i'r Bwrdd Academaidd, gan nodi y bydd yn parhau i fod yn gysylltiedig â gwaith y Coleg.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	15.2. Nodwyd bod Gwerfyl Roberts wedi ymddeol o'i swydd ym Mhrifysgol Bangor ac o'r Bwrdd Academaidd. Talwyd teyrnged i'w gwaith sylweddol ym maes iechyd, a nyrsio yn benodol, dros sawl degawd. 15.3. Nodwyd y cynhelir cyfarfod y Llys yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth ar 7 Mawrth 2018 ac mai'r Athro Eleri Pryse fydd cynrychiolydd staff y Coleg a Lois Nash fydd cynrychiolydd myfyrwyr y Coleg. Cynhelir y Cynulliad Blynyddol ar yr un noson yn y Morlan, Aberystwyth.		
16. Dyddiad y cyfarfod nesaf	16.1. Nodwyd y dyddiad canlynol: • 2 Mai 2018, Prifysgol Metropolitan Caerdydd 16.2. Diolchwyd i Brifysgol Abertawe am y croeso ac am letya'r cyfarfod.		